OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 176 (Cy. 50)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffwrnais, Ceredigion i fan i'r gogledd o Gyffordd Dyfi, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Chwefror 2017* |
| *Yn dod i rym* | *20 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffwrnais, Ceredigion i fan i'r gogledd o Gyffordd Dyfi, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, ar gyfer cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, gan wasanaethau bws trafnidiaeth gyhoeddus ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn siroedd Ceredigion a Phowys a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 2.5 metr o led neu'n lletach, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Chwefror 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd ym Mhont Ffwrnais, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r de o ganolbwynt Pont Ffwrnais hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o'r pwynt hwnnw.

Y darn o'r gefnffordd yng Nglandyfi, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd o'r fynedfa i Gastell Glandyfi hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â chanolbwynt y fynedfa i Coed-y-garreg.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd rhwng Ffwrnais ac Eglwys Fach, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i'r annedd o'r enw Plas Einion hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i'r annedd o'r enw Dolen Barn.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r de o ganolbwynt Pont Llyfnant wrth ffin sirol Ceredigion/Powys hyd at bwynt 16 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i Barc Carafannau Morben Isaf, i'r gogledd o Gyffordd Dyfi, Powys.